# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 3A, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MAWRTH, 14 CHWEFROR 2017 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd L James (Is-gadeirydd) a fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | T J Hennegan | P R Hood-Williams |
| L James | J W Jones | P M Meara |
| R V Smith | L V Walton | T M White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Paul Beynon | Prif Archwiliwr |
| Debbie Smith | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd. |
| Simon Cockings | Archwiliwr Grŵp |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol: -**

| | |
|---|---|
| Geraint Norman | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Gareth Lewis | Swyddfa Archwilio Cymru |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R A Clay a/ac C Thomas

### 61 DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 62 ADRODDIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - ADOLYGIAD PERFFORMIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2016/17.

Hwyluswyd sesiwn gan Gareth Lewis a Geraint Norman, o Swyddfa Archwilio Cymru, a oedd yn galluogi'r Pwyllgor Archwilio i gwblhau adolygiad o'i berfformiad yn ystod 2016/17.

Gofynnwyd i aelodau ystyried y meysydd gwaith hynny yr oedd y Pwyllgor wedi gwneud yn dda ynddynt a'r meysydd hynny lle yr oeddent yn teimlo bod lle am welliant. Seiliwyd y sesiwn ar 7 swyddogaeth graidd y pwyllgor archwilio a sefydlwyd gan CIPFA. Yr egwyddorion craidd a drafodwyd oedd: -

- Datganiadau Sicrwydd, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol,
- Archwilio Mewnol,
- Rheoli Risgiau,

- Amgylchedd rheoli, gan gynnwys gwerth am arian ac atal twyll a llwgrwobrwyaeth,
- Archwilio allanol ac asiantaethau arolygu eraill,
- Perthynas rhwng archwiliad allanol, archwiliad mewnol, asiantaethau archwilio a chyrff perthnasol eraill,
- Datganiadau Ariannol.

Byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r sesiwn er mwyn eu hystyried a'u cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2016/17.

Diolchodd y cadeirydd i gynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru am arwain y drafodaeth.

63 **ADRODDIAD OLRHAIN GWEITHREDU'R PWYLLGOR ARCHWILIO. (ER GWYBODAETH)**

Darparwyd Adroddiad Olrhain Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth.

Trafodwyd Cytundebau a Rheoli Risgiau Adran 106 gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:** -

1) Nodi cynnwys yr adroddiad,
2) Ailagor y mater ynghylch mynediad i gronfa ddata Adran 106 i gynghorwyr oherwydd diffyg gwybodaeth.

64 **CYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO. (ER GWYBODAETH)**

Cyflwynwyd Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Prif Swyddog Addysg gael ei atgoffa bod ei bresenoldeb ym Mhwyllgor Archwilio Arbennig ar 28 Mawrth 2017 yn ofynnol.

Dywedodd Geraint Norman, o Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), wrth y pwyllgor y byddai Adroddiad Grantiau terfynol SAC ar gyfer 2015/16 yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn ystod mis Mehefin 2017.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.55 pm

**CADEIRYDD**